Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Parc Coedwig **Dyfnant** Forest Park

# Coed **Pont Llogel** Wood

## Croeso i Goedwig Dyfnant

**Mae Coedwig Dyfnant mewn rhan o Gymru sy'n enwog am ei bryniau tonnog, ei dyffrynnoedd gwyrdd ffrwythlon a'i phentrefi a'i ffermydd tlws.**

Mae'n ardal sydd hefyd yn gyfoethog ei hanes. Arferai Owain Glyndŵr, y tywysog a fu'n ymladd dros annibyniaeth i Gymru a Chymru unedig, farchogaeth dros y bryniau hyn ar un adeg.

Erbyn heddiw, mae'n nodedig am gyfleusterau ar gyfer marchogaeth a gyrru cart a cheffyl.

### Cartref i'r Llwybrau Marchogaeth Enfys

Coedwig Dyfnant yw cartref Llwybrau Enfys Dyfnant, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chymdeithas Marchogion a Gyrwyr Cart a Cheffyl Dyfnant ac Efyrnwy.

- **Pen y Ffordd** yw canolbwynt y llwybrau ar gyfer **marchogion**
- **Hendre** yw man cychwyn y llwybrau **gyrru cart a cheffyl.**



Llwybr Pont Llogel
Pont Llogel Walk



Afon Efyrnwy
River Vyrnwy

## Welcome to Dyfnant Forest

**Dyfnant Forest is in a part of Wales renowned for its rolling hills, lush green valleys and picturesque farmsteads and villages.**


It is an area rich in history, too. Owain Glyndwr, the Welsh prince who fought for Welsh independence and united Wales, once rode these hills.

Nowadays it is well known for its horse riding and carriage driving facilities.

### Home of the Rainbow Horse Riding Trails

Dyfnant Forest is the home of the Dyfnant Rainbow Trails, which were developed in partnership with the Dyfnant and Vyrnwy Horse Riders and Carriage Drivers Association.

- **Pen y Ffordd** is the hub for the routes for **horse riders**
- **Hendre** Hendre is the starting point for the **carriage driving routes.**




## Gwledd i'r cerddwr!

### Croeso i Bont Llogel yng Nghoedwig Dyfnant

Mae'r ardal dawel hon wedi cael ei dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd yr amrywiaeth helaeth o blanhigion sy'n tyfu yma. Rydym wedi cael gwared â nifer fawr o gonwydd (coed gyda moch coed) er mwyn rhoi cyfle i'r golau dreiddio i lawr y goedwig ac annog planhigion a choed brodorol (megis derw a chyll) i dyfu.

### Beth allwch ei wneud o'r fan hon

Mae Llwybr Pont Llogel yn dilyn rhan o **Lwybr Glyndŵr** (sy'n coffáu'r arwr Cymreig a lwyddodd i roi annibyniaeth i Gymru am gyfnod), llwybr troed hir sy'n mynd o Drefyclo i'r Trallwng, ynghyd â rhannau o **Lwybr Ann Griffiths** (sy'n coffáu'r emynyddes enwog), sy'n mynd oddi yma i Bont Robert, 7 milltir i ffwrdd. Mae llwybr arall, sef **Pererindod Melangell**, llwybr heriol iawn, yn cychwyn yr ochr arall i'r ffordd ac yn mynd i Langynog, 15 milltir i ffwrdd. Gallwch brynu taflen ar y llwybrau hyn yn y siop ym Mhont Llogel.

Rhagor o wybodaeth oddi wrth www.midwalesmyway.com

## A walker's feast!


### Welcome to Pont Llogel in Dyfnant Forest

This tranquil area has been designated a SSSI (Site of Special Scientific Interest) because of its wide range of plants. We removed a lot of coniferous trees (trees with cones) to allow light to reach the woodland floor and encourage native plants and trees (like oak and hazel) to grow.


### What you can do from here

The Pont Llogel Walk follow's part of **Glyndŵr Way** (commemorating the Welsh folk-hero who gave Wales a brief taste of independence), a long-distance footpath from Knighton to Welshpool and the **Ann Griffiths Walk** (commemorating the famous hymn writer), from here to Pont Robert 7 miles away. Another walk, the challenging **Pererindod Melangell**, starts from across the road and goes to Llangynog, 15 miles away. You can buy a trail booklet for these walks from the shop in Pont Llogel.

More information from www.midwalesmyway.com




Atgynhyrchir y mapiau hyn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans 100019741.
These maps are based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100019741.




### Llwybr Pont Llogel
### Pont Llogel Walk

**Hawdd – llwybr is gwastad**
**Easy – level lower route**

**Cymedrol – llwybr uwch**
**Moderate – higher route**

Pellter | Distance: 1 m | 1.6km
Amser | Time: Amser/Time: 1 awr/hour
Dringo | Climb: 40m | 130ft llwybr uwch/higher route

**UCHAFBWYNTIAU:** Rhowch gynnig ar y llwybr hawdd hwn sy'n mynd ar hyd glannau Afon Efyrnwy.

Gallwch ddilyn ein llwybr cysgodol sydd wedi'i farcio, ac sy'n mynd ar hyd lan Afon Efyrnwy, a dychwelyd yr un ffordd neu, os nad ydych eisiau osgoi rhannau serth a grisiau, gallwch ddychwelyd ar hyd y llwybr uwch.

**HIGHLIGHTS:** Try this easy trail along the banks of the river Vyrnwy.

You can follow our sheltered waymarked walk along the River Vyrnwy and either return the same way or use the higher-level return path if you don't mind steep sections and flights of steps.

### Llwybr Anne Griffiths Walk

www.midwalesmyway.com

Pellter | Distance: 7 m | 11km un ffordd/one way

Llwybr hyfryd ar hyd Afon Efyrnwy ym Mhowys, a mynyddoedd Berwyn yn gefndir ysblennydd. Man cychwyn y daith yw Pont Llogel, Llwydiarth ac mae'n mynd i Bontrobert heibio golygfeydd amrywiol o ddyffryn afon a cheunant, dôl, coetir a choedwig.

Enwyd y llwybr ar ôl Ann Griffiths, a fu'n ysgrifennu emynau yn y 18fed ganrif ac yn byw yn yr ardal. Byddwch yn cerdded heibio mannau sy'n gysylltiedig â'i bywyd, gan gynnwys ei chartref Dolwar Fach a'i chapel coffa yn Nolanog.

A lovely walk along the River Vyrnwy in Powys, with the Berwyn mountains forming a splendid backdrop. The path runs from Pont Llogel, Llwydiarth to Pontrobert with scenery including river valley and gorge, meadow, woodland and forest.

The walk is named after the 18th Century hymn writer Ann Griffiths who lived in the area. You will pass locations associated with her life including her home at Dolwar Fach and her memorial chapel at Dolanog.

### Llwybr Pererindod Melangell Walk

www.midwalesmyway.com

Pellter | Distance: 15 m | 24km un ffordd/one way

Cerddwch o Bont Llogel i Langynog a mwynhau golygfeydd godidog o Lyn Efyrnwy ar y llwybr heriol hwn. Ceir golygfeydd hyfryd hefyd o Fynyddoedd Cambria a Berwyn, a Dyffrynnoedd Tanat ac Efyrnwy.

Mae Llyn Efyrnwy hefyd yn Warchodfa Natur RSPB felly cadwch lygad am esgyll cochion, cesig y ddrycin, hwyaid danheddog, gwyachod bach a hwyaid gwylltion www.rspb.org.uk.

Stride out from Pont Llogel to Llangynog and enjoy fabulous views of Lake Vyrnwy on this challenging walk. There are also wonderful views of the Cambrian and Berwyn Mountains and the Vyrnwy and Tanat Valleys.

Lake Vyrnwy is also a RSPB Nature Reserve so look out for redwings, fieldfares, goosanders, little grebes and mallards www.rspb.org.uk.

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

P parcio / parking
VC canolfan ymwelwyr / visitor centre
lle picnic / picnic area
llwybrau cerdded / walking trails
llwybrau marchogaeth / horse riding trails
llwybrau gyrru cart a cheffyl / carrage driving trails

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government